

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cyngorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, M.J. Hooper, E. Penn a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Cyngorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

### 927 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### 928 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr C. Iannucci a S.T. Wiliam.

### 929 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2024 fel cofnod cywir.

### 930 DATGANIADAU BUDDIANT –

Dywedodd y Cyngorydd V.P. Datganodd Driscoll ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr Agenda – Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol. Natur y buddiant oedd bod y Cyngorydd Driscoll yn Gyfarwyddwr cwmni a oedd wedi derbyn grant gan y Cyngor. Roedd natur yr adroddiad yn golygu bod y Cyngorydd Driscoll yn gallu aros yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem ar yr agenda.

## 931 CYFUNDREFN ARCHWILIO CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024 gan y Rheolwr Cymdogaethau - Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Roedd dyletswydd ar y Cyngor i gynnal a chadw'r briffordd ar draul y cyhoedd dan Adran 41 Deddf Priffyrdd (1980). Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer newidiadau i'r Drefn Archwilio Cyflwr Priffyrdd gan gynnwys diwygiadau i Hierarchaeth Rhwydwaith Priffyrdd, Trefn Archwilio a Threfn Atgyweirio'r Cyngor yn dilyn yr Adolygiad Risg Priffyrdd cychwynnol gyda Chymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSC) ym mis Hydref 2019.

Roedd yr adroddiad yn cynnig bod Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2021 (sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn disodli Llawlyfr Diogelwch Priffyrdd 2014 (Atodiad 2 yr adroddiad).

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper gyfres o gwestiynau gan ddechrau gyda'r goblygiadau cost o ran gwaith ailwynebu ffyrdd o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Yn ogystal, holodd y Cynghorydd Hooper lefel yr ystyriaeth o fewn y drefn ar gyfer beicwyr. Ymholiad olaf y Cynghorydd Hooper oedd sut yr oedd trefn y Cyngor yn cymharu â'r Awdurdodau cyfagos. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Cymdogaethau, o ran amrywiadau cost, fod cyfle i arbed arian trwy ddilyn trefn archwilio fwy rheolaidd er mwyn nodi mwy o ddiffygion yn gynharach o bosibl. Ar ôl eu nodi, byddai'r Cyngor yn gallu monitro'n fwy. O ran beicwyr, dywedodd y swyddog fod y Cyngor yn ystyriol o hyn a bod cysylltiadau agos gyda Swyddog Teithio Llesol y Cyngor. Felly, wrth ystyried gwaith clytio, byddai cydgysylltu gyda'r Swyddogion Teithio Llesol a rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau a grwpiau beicwyr lleol. O ran cymhariaeth ag Awdurdodau cyfagos, roedd gan Gynghorau Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr yr un drefn archwilio â Bro Morgannwg a dim ond Cyngor Caerdydd fyddai'n cynnal archwiliadau wythnosol, ond dim ond ar gyfer rhai ffyrdd.

Gofynnodd y Cynghorydd I. Perry a oedd y newidiadau i'r drefn archwilio yn debygol o arwain at wneud mwy o waith atgyweirio. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Swyddog at heriau gan fod adnoddau'n gyfyngedig. Ar hyn o bryd roedd 606 o ddiffygion ar y lôn gerbydau wedi'u nodi fel gwaith ôl-groniad a oedd angen sylw, ac i gymharu, roedd 1,200 o ddiffygion yn yr un cyfnod y llynedd. Mae'r problemau y llynedd oherwydd tywydd garw. Roedd yn bwysig cydnabod nad oedd ffyrdd wedi'u dylunio i ymdopi â lefel y traffig, felly roedd angen mwy o fuddsoddiad.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch gylïau, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod trefn lanhau, a oedd yn gyffredinol yn gweithredu ar gyfnodau yn amrywio rhwng 12 a 15 mis.

Trafododd y Pwyllgor roi gwybod am faterion a diffygion drwy ap Cyswllt Un Fro y Cyngor a mynegodd rhai Aelodau farn y gallai'r ap fod yn fwy hawdd ei ddefnyddio. Felly, argymhellwyd y dylid gofyn i'r Cabinet edrych ar ffyrdd o wella'r broses rhoi gwybod am ddiffygion ar y lôn gerbydau.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Y dylid hysbysu'r Cabinet o farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio y dylid ystyried gwella'r broses adrodd ar-lein ar gyfer diffygion ffyrdd cerbydau er mwyn sicrhau ei bod yn haws ei defnyddio.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

### 932 MONITRO REFENIW CHWARTER 3 2023/24 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 3 ar gyfer 2023/24.

Mae'r tabl isod yn nodi'r Gyllideb Wreiddiol a'r Gyllideb Ddiwygiedig i'w chymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth.

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 £000au	Alldro a Ragwelir 2023/24 £000au	Amrywiad £000au	Defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn £000au	Amrywiad Gweddillio I 2023/24 £000au	Defnydd o gronfeydd wrth gefn 2023/24 £000au
Ysgolion	114,239	115,089	850	-850	0	9,600
Dysgu a Sgiliau	14,090	14,668	578	-578	0	1,292
Gwasanaethau Cymdeithasol	85,460	93,098	7,638	-5,052	2,586	9,051
Yr Amgylchedd a Thai	32,009	33,359	1,350	-300	1,050	550
Adnoddau Corfforaethol	16,641	16,356	-285	0	-285	430
Lleoedd	3,401	3,503	102	-102	0	495
Polisi	30,678	27,327	-3,351	0	-3,351	-42
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	-2,096	-2,096	0	0	0	2,096
Cyfanswm	294,422	301,304	6,882	-6,882	0	23,472
Cyfrif Refeniw Tai	15,538	15,538	0	0	0	0
Cyfanswm wedi'i Addasu	309,960	316,842	6,882	-6,882	0	23,472

Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu'r galw heriol a'r pwysau chwyddiant, gyda galw cynyddol mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion ac roedd cynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a pheynnau gofal a chymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau'n faes dan bwysau mawr o fewn Dysgu a Sgiliau. Roedd y Cyngor hefyd yn profi pwysau chwyddiant parhaus mewn perthynas â Thrafnidiaeth Ysgol. Ar draws gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi mewn perthynas â chyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch ariannu rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 a'r dyfarniad cyflog cyfradd safonol ar gyfer 2023/24.

Roedd y Cyngor wedi nodi nifer o gamau i'w cymryd yn ystod y flwyddyn i helpu i liniaru'r gorwariant hwn sy'n dod i'r amlwg a diogelu cronfeydd wrth gefn, roedd hyn yn cynnwys rheolaethau llymach ar wariant a recriwtio ac adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf. Roedd y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol wedi nodi tanwariant posib o £285k i'w wrthbwysu yn erbyn gorwariant sy'n dod i'r amlwg ac roedd tanwariant rhagamcanol o £1m yn erbyn incwm y Dreth Gyngor oherwydd y casgliad a ragwelir o ôl-ddyledion, eiddo newydd, newidiadau mewn lwfansau a phremiymau ar gartrefi gwag yn ogystal â gwarged ar incwm buddsoddi a chostau benthyca.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u pennu ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn Atodiad yr adroddiad ac fe'u crynhoir yn y tabl isod:

Cyfarwyddiaeth	Targed	Rhagwelwyd	% a Gyflawnwyd	Lliniaru	% y Lliniaru a Gyflawnwyd	Diffyg	% y Diffyg
	£000au	£000au		£000au		£000au	£000au
Polisi	1,615	1,615	100%	-	0%	-	0%
Adnoddau	582	331	57%	250	43%	1	0%
Cymdogaeth a Thai	1,000	640	64%	40	4%	320	32%
Dysgu a sgiliau	564	383	68%	-	0%	181	32%
Gwasanaethau Cymdeithasol	681	556	82%	-	0%	125	18%
Lleoedd	265	173	65%	-	0%	92	35%
Cyfanswm	4,707	3,698	79%	290	6%	719	15%

Mae trosglwyddiadau rhagamcanol i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt wedi'u nodi yn y tabl isod:

Fel ar	Balans ar 01/04/2023	Cyllid Cyfalaf	Trosglwyd do wedi'i gynllunio (o) gronfeydd wrth gefn	Trosglwyd do wedi'i gynllunio i gronfeydd wrth gefn	Tynnu i lawr heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn	Amcangyfrif o'r Balans ar 31/03/2024
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Gyffredinol	11,523	-	-496	0	-850	10,177
Yswiriant	4,877	-	0	0	0	4,877
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau	22,521	-154	-6,325	2,842	-6,031	12,853
Cronfeydd Risg a Llyfnhau	29,802	-1,302	-3,780	-944	-	23,776
Cyfalaf	17,726	-10,825	443	-1,898	-	5,446
Ysgolion	7,254	-	-174	0	-6,677	403
Cyfrif Refeniw Tai	16,486	-15,537	0	0	0	949
Cyfanswm	110,190	-27,818	-10,331	-0	-13,558	58,481

### ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran cyllideb refeniw yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.
- (2) Nodi'r trosglwyddiadau cyllidebol ar gyfer 2023/24 fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad.

### Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

### 933 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 RHAGFYR, 2023 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2023/24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Rhagfyr 2023 o fewn ei gylch gwaith. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf yn ôl Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 31

Rhagfyr 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad hwn. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy bresennol o £103.677m, ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni a gofynnwyd am lithriad o £7.692m gydag alldro a ragwelir o £96.763m. Byddai'r cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a byddai'r swyddogion yn parhau i weithio gyda noddwyr a rheolwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd ariannu posib yn cael eu nodi a'u hystyried yn llawn.

Gofynnodd y Cyngorydd J. Protheroe am yr amserlenni ar gyfer y gwelliannau ar gyfer canolfan ailgylchu gwastraff y cartref Llandŵ. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth y byddai adroddiad manwl ar gyfer y Cabinet yn cael ei ystyried mewn cyfarfod Cabinet ar 21 Mawrth 2024, a byddai hynny'n cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu.

O ran aildendro cynllun beiciau'r Cyngor, roedd cyfansoddiad unrhyw gynllun yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn ystod yr haf.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) Nodi'r defnydd o awdurdod dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y'i crynhoir ym mharagraff 2.7 ac y manylir arno yn yr adroddiad ym mharagraffau 2.16 a 2.64.
- (3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) Y dylid nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf y dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y'u crynhoir ym mharagraffau 2.3 i 2.6 ac y manylwyd arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.15 ymlaen.

#### Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

#### 934 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 (CL) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 wrth gyflawni ymrwymadau

Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd yn Ch3 (1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023) tuag at gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti presennol o fewn y Tîm Perfformiad Corfforaethol, diwygiwyd fformat Adroddiad Monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Ch3 dros dro, er mwyn gallu rhoi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynoded o'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper am fwy o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer y Prosiect Y Barri - Creu Tonnau a gofynnodd hefyd am fwy o fanylion ynghylch y dull o weithredu cynllun seilwaith gwyrdd y Cyngor. Mewn ymateb, ac o ran y Prosiect Y Barri - Creu Tonnau, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a Chraffu dros y misoedd nesaf. Eglurodd y Cyfarwyddwr, er bod dyfarniad dros dro wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU, fod rhai cwestiynau ychwanegol yn dal i gael eu hateb gan y Cyngor fel rhan o borth cyn y gellid dyrannu'r cyllid. O ran y cynllun seilwaith gwyrdd, dywedodd y Cyfarwyddwr fod drafft cychwynnol wedi'i gynhyrchu drwy ymgynghorwyr a benodwyd gan y Cyngor i gyflawni'r gwaith. Byddai ymgynghoriad felly ar y cynllun cychwynnol yn cael ei gynnal dros fisoedd yr haf a byddai adborth o'r ymgynghoriad yn llywio'r cynllun drafft terfynol. Dywedodd y Cyfarwyddwr, pan ofynnwyd iddo i wneud sylw pellach ar y Gronfa Ffyniant Bro, fod dealltwriaeth gan Lywodraeth y DU y byddai'r angen am wybodaeth ychwanegol yn cael effaith ar y dyddiad cau erbyn pryd yr oedd angen gwario'r arian. Felly, roedd Llywodraeth y DU yn ystyried newid y dyddiad cau erbyn pryd yr oedd yn rhaid i'r Cyngor a'i bartneriaid wario ei ddyraniad.

Cododd y Cynghorydd Hooper ymholiad ynglŷn â chyfansoddiad y Byrddau Tref ar gyfer cynllun hirdymor Llywodraeth y DU ar gyfer trefi. Cytunodd y Pwyllgor i godi hynny fel pryder i'r Cabinet ei ystyried, ar y sail ei bod yn ymddangos bod rôl gyfyngedig iawn i Aelodau Etholedig yn y broses.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, mae'r Pwyllgor

## ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 3 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (3) Bod y Cabinet yn cael gwybod am bryder Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio mewn perthynas â'r cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU o ran rôl aelodau wardiau yng nghyfansoddiad y Byrddau Tref a defnyddio unrhyw gyfleoedd a allai godi i sicrhau cynrychiolaeth leol effeithiol mewn perthynas â chynllun hirdymor Llywodraeth y DU ar gyfer trefi.

### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ei ymrwymadau.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddff Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn adlewyrchu gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Ddeddf 2015 yn yr ystyr ei bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni Nodau Llesiant Cymru.
- (3) Hysbysu'r Cabinet o bryderon y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â chyfansoddiad y Byrddau Tref.

## 935 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/25 (CL) –

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth yr Aelodau o'r camau blaenoriaeth fel yr adlewyrchir yn y Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2024/2025 a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Cyflwynodd yr adroddiad y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig (fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad cysylltiedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu. Dyma oedd meysydd ffocws penodol y Pwyllgor a oedd yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/2025 fel sy'n cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol (atodwyd yn Atodiadau A a B yr adroddiad).

Byddai datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn



gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas ag adolygu a phennu amcanion, adolygu perfformiad ac adrodd ar berfformiad, gan ganolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Bro Morgannwg.

Yn unol â dyletswyddau statudol, roedd perthnasedd Amcanion Lles y Cyngor yn cael ei adolygu'n barhaus. O ganlyniad, wrth symud ymlaen i 2024/2025, roedd Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol a'r ymrwymïadau cysylltiedig a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/2025 (a gynhwysir ym mhapurau cefndir yr adroddiad) yn berthnasol wrth gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion Bro Morgannwg a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.

Ystyriodd pob Pwyllgor Craffu Gynllun Cyflawni Blynyddol drafft ym mis Rhagfyr 2023 a gwnaeth ei farn ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid allweddol eraill lywio'r Cynllun terfynol.

Adlewyrchwyd yr ymrwymïadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 mewn 16 o Gynlluniau Gwasanaeth a roddwyd er gwybodaeth ym mhapurau cefndir yr adroddiad. Dangosodd y cynlluniau hynny sut y byddai gwasanaethau unigol yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r pedwar Amcan Lles yn gyffredinol a sut y byddai adnoddau'n cael eu defnyddio i wneud hynny.

Yn unol â'r Calendr Perfformiad Blynyddol, roedd yr Aelodau wedi parhau i helpu i lunio'r ffordd yr oedd gweithgarwch ac adroddiadau cysylltiedig â pherfformiad yn cael eu cyflwyno i'w cefnogi yn eu rôl her cyfaill beirniadol. Roedd adborth o'r gweithdy diweddar (yn ymwneud â'r cyflwyniad pwyllgor-benodol o weithgareddau cynllun gwasanaeth a thargedau perfformiad) ym mis Chwefror 2024, wedi'i adlewyrchu yn y dull o ymdrin ag adroddiadau eleni.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu'r cyfraniadau gan wasanaethau (drwy weithgareddau wedi'u cynllunio a mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig) fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymïadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2024/25. Nodwyd y rhain yn Atodiadau A a B.

Ar ôl adolygu, gofynnwyd i'r Aelodau argymhell i'r Cabinet y gweithgareddau wedi'u cynllunio a'r targedau perfformiad gwasanaeth cysylltiedig fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor fel y prif ddull o fonitro, mesur ac adrodd perfformiad bob chwarter ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25. Nodwyd y rhain yn Atodiadau A a B.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper am Gynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor dan Amcan 13 a manau gweithio a rennir. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod adolygiad o adeiladau ac asedau'r Cyngor yn y dyfodol yn cael ei gynnal ac y byddai'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol. Byddai'r adolygiad yn edrych ar sut y gallai manau a rennir ar draws adrannau'r Cyngor gael eu hagor a'u defnyddio gan wasanaethau a Chyfarwyddiaethau eraill. Felly, byddai'r gwaith yn edrych ar gapasiti yn y farchnad yn hytrach nag effeithio ar fusnesau preifat.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu gael cyfle i ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y fframwaith adrodd yn cael ei ddatblygu. Cytunodd y Pwyllgor i hyn fod yn argymhelliad ffurfiol i'r Cabinet.

#### ARGYMHELLWYD –

- (1) Cymeradwyo'r gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2024/25, sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor ac a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaeth ar gyfer 2024/25, sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor ac a nodir yn Atodiad B i'r adroddiad.
- (3) BOD y Cabinet yn ystyried cyfarfod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu er mwyn ystyried sut mae pob Pwyllgor yn symud ymlaen ac yn cefnogi'r fframwaith adrodd newydd.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (3) Er mwyn hysbysu'r Cabinet o farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.